

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Sue Davies (Tanyfron) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei thad, a hynny mor fuan ar ôl colli ei mam. Mae eraill o'n plith wedi cyfarfod â phrofedigaeth hefyd a gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau anodd hyn.
- Cofiw'n yn arbennig heddiw hefyd am Irwyn Jones (Tanyfron), Selwyn Davies (Cefn Meiriadog), a Gwyneth Griffiths ac Edith Maloney (Henllan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd; a Kitty Parry (Llanefydd) ac Elizabeth Jones (Llansannan) yn yr Inffirmari. Diolchwn i Dduw amdanynt, a hyderwn y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Cyflwynwn hwy oll a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd, gan ddiolch am y sicrwydd ei fod yn gwrando'n gweddiâu.
- Llongyfarchiadau i lorwerth ac Eirianwen Martin fydd yn dathlu 60 mlynedd o briodas ar ddydd ola'r mis hwn.

Y Pleidleisio!

Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol mewn un oedfa ymhob capel, naill ai ar Ebrill 3ydd neu'r 10fed. Byddant yn cymryd llais yr eglwys ynglŷn ag a ydych o blaid galw Gweinidog i fugeilio eglwysi'r Ofalaeth, a hefyd yn arwain pleidlais ddirlgel i ddewis UN aelod (nad yw yn flaenor/diacon) i gynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol (os, neu pryd y bydd hwnnw yn dod yn weithredol). **Cewch enwi y nifer a fyynnwch, ond yr aelod fydd wedi derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau, yn ogystal â'r blaenoriaid, fydd yn cynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol.** (Mae dyddiad y bleidlais yn eich eglwys chi wedi ei nodi o dan gyhoeddiadau pob eglwys.)

Manylion Cyswllt

Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📱 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📱 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📱 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27^{ain} Mawrth 2016

Darlleniad y Dydd

Luc 24:1-12

(BCND tud.97 / BCN tud.89)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da iawn i chi ar Sul y Pasg a chroeso i oedfaon y dydd lle bynnag y byddwch heddiw. Mae'n golwg ar y tywydd bore 'ma gan ein bod yn gobeithio cael cynnal digwyddiad ar Foel Fodiad am 2.00! Cofio digwyddiadau mawr y Pasg yw'r nod, sef yr hyn a ddigwyddodd i Iesu, ond fe fyddwn yn ceisio gwneud mwy na hynny hefyd, sef ceisio gweld o'r newydd sut mae'r digwyddiadau pwysig yma yn berthnasol i ni bob un. Rydym yn gyfarwydd iawn â'r hanesion, ond sut mae'r hanesion yma yn dod yn rhan o'n cred a'n ffydd ni? Ac, a ydyn nhw yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'n ffordd ni o fyw?

Rhaid i mi gyfaddef na wnes i roi fawr o sylw i'r Gyllideb yr wythnos yma. Mae'r rheini'n dod yn amlach bellach ac mae llawer o'r trafodaethau uwch fy mhen i. Ond sylwais ar safiad Ian Duncan Smith, a themlo ei fod wedi gwneud peth dewr ac anrhydeddus. Iddo fo, roedd y Gyllideb yn berthnasol, ac yn cyfri iddo i'r fath raddau nes ei fod yn fodlon ildio ei safle mewn protest yn erbyn y toriadau i'r drefn budd-daliadau. Fe fyddwn i wedi anwybyddu'r Gyllideb i raddau helaeth ond iddo fo wneud ei safiad. Iddo fo, roedd y gyllideb hon yn cyfri ac yn werth ymateb iddi.

Fe fydda i'n meddwl mai fel yna mae hi hefo llawer pan ddaw yn fater o ystyried croeshoeliad ac atgyfodiad Iesu. Gellir yn hawdd iawn eu hanwybyddu bellach, troi cefn ar yr hyn ddigwyddodd a meddwl nad ydi'r pethau yma yn berthnasol 'i mi'. Mae'n rhaid i ryw beth arbennig ddigwydd i ni os ydan ni am weld a chredu yng ngwerth a gwir arwyddocâd yr hyn a ddigwyddodd i Iesu.

Felly, sut mae'r hyn a ddigwyddodd ar Galfaria ac ar fore'r trydydd dydd yn dod yn berthnasol i ni i'r graddau y byddem yn fodlon ildio ein bywydau i Iesu? Mae Iesu'n dweud mai gwaith yr Ysbryd Glân a gwaith gweddi ydi hyn. Fe fydd yr Ysbryd yn dod i'n argyhoeddi ni. Fe fydd yn gwneud i ni sylweddoli pa mor ddifrifol ydi ein cyflwr fel pobl meidrol ac fel pobl sy'n byw â'n cefnau tuag at Dduw. Dan ddylanwad yr Ysbryd fel hyn, ac wrth i ni weddio ar Dduw, fe fydd pethau'n newid go iawn! Fe fydd yr holl hanesion am Iesu yn dod yn fyw i ni ac yn berthnasol i ni. Does dim sy'n fwy perthnasol i ni sydd yn marw na chael golwg ffydd ar atgyfodiad Iesu. I ni sydd wedi ein pellhau oddi wrth Dduw yn ein pechod, beth all fod yn fwy perthnasol na chredu fod Iesu wedi marw er mwyn i ni gael maddeuant llawn a'n dwyn yn agos at Dduw mewn heddwch? 'Mae'n fyw!' oedd datganiad syfrdanol y disgyblion cyntaf. 'Mae'n fyw yn fy nghalon i!' yw tystiolaeth pob Cristion ers hynny!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Aneurin

Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 28: 16-20 (BCND tud.36 / BCN tud.33)

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 27^{ain}

Y Pasg ar Moel Fodiar – Os bydd y tywydd yn caniatáu, bwriedir cynnal oedfa awyr agored **am 2.00** pryd byddwn yn cofio rhai o ddigwyddiadau'r Pasg mewn gwahanol safleoedd ar Moel Fodiar, sydd rhwng Cefn Berain a Brynrhydyarian. (Bydd cerbydau wedi eu trefnu i gludo'r rhai na allant gerdded i ben y mynydd.) Byddai'n fantais os medrwyd gyd-deithio ond diolchwn i Geraint Roberts am roi caniatâd inni barcio'r ceir ym muarth Groesffordd sydd ger hen gapel Gwynfa (ar y B5382 rhwng Henllan a Llansannan). Bydd gwaith cerdded o tua 10-15 munud i'r fan ble byddwn yn cychwyn, a cherbydau i gludo'r rhai na allant gerdded yn bell. Os na fydd y tywydd yn ffafriol, bydd Oedfa i'r Fro yn cael ei chynnal yn Llansannan am 2.00 gyda Dafydd Timothy yn arwain a Rhodri Glyn yn pregethu. *Edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth (eglwysibroaled.com), neu cysylltwch â Mair (01745 870632 / 07900 627536) os bydd amheuaeth o ran y tywydd.*

Llun – Iau
28^{ain} – 31^{ain}

Llanw – Gŵyl Gristnogol sy'n cael ei chynnal yn Neuadd Goffa Cricieth. (*Manylion llawn ar y daflen rydd.*) Os oes unrhyw un yn dymuno cael lifft i fynd yno, neu os oes gennych le i rywun gyd-deithio hefo chi, plis gadewch i Mair wybod.

Sul nesaf – 3^{ydd}

Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Aneurin neu Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 27^{ain}

Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ond ni fydd Ysgol Sul yn Llanfair heddiw. Bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar am 2.00.

Sul nesaf – 3^{ydd}

Bydd Dr Rhodri Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i gymryd y pleidleisiau yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 27^{ain}

Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 (*syllwch ar y newid*). Ni fydd oedfa yn Groes heddiw ond bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar am 2.00.

Sul nesaf – 3^{ydd}

Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00 a bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i gymryd pleidleisiau aelodau Capel Henllan yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 27^{ain}

Cynhelir oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00 pryd y bydd yr eglwys yn derbyn Jac Davies yn aelod cyflawn ac yn croesawu y bobl ifanc eraill ddaeth, yn gynharach yn y flwyddyn, yn aelodau cyflawn o'r eglwys. Bydd yr Ysgol Sul yn cyd-redeg. Yna, am 2.00 bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar.

Sul nesaf – 3^{ydd}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i gymryd pleidleisiau aelodau Capel Peniel yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Llansannan

Sul yma – 27^{ain}

Bydd Dr Rhodri Glyn yn arwain oedfa am 10.00, a bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar am 2.00.

Sul nesaf – 3^{ydd}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i gymryd y pleidleisiau yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 27^{ain}

Ni fydd oedfa yn Nantglyn heddiw ond bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar am 2.00.

Sul nesaf – 3^{ydd}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00 a bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i gymryd pleidleisiau aelodau Capel Tanyfron yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*).

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 27^{ain}

Bydd Gwasanaeth Teuluol yng Nghefn Berain am 10.00. Yn Llanefydd, bydd Gwasanaeth y Pasg am 10.00 gan blant yr Ysgol Sul ac yng nghwmni Gwion a Sarah, a Gwasanaeth Pasg yr ieuencid hefo Gwion a Sarah am 6.00. Bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar am 2.00.

Gwener – 1^{af}

Sul nesaf – 3^{ydd}

Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i gymryd y pleidleisiau yn y broses o alw gweinidog (*mwy o fanylion ar y cefn*). Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â'r oedfa yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion am 11.15. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.